



ECO3 - Canllaw i Ymgeiswyr

Gweithredir y cynllun ECO3 gan gwmnïau preifat, fe fydd y cyllid ar gyfer y gwelliannau yn cael ei ddyfarnu gan y cwmnïau ynni. Mae cyfranogiad Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn yn gyfyngedig ac nid yw'n gyfrifol am roi cyllid, penodi contractwyr na gosod y gwaith. Mae'r cyllid ar gael ar gyfer berchnogion preifat a thenantiaid sy'n rhentu'n breifat yn unig.

Mae Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn wedi cyhoeddi Datganiad o Fwriad sy'n caniatáu i'r cynllun hwn gael ei gyflawni yng Ngwynedd:

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Strategaethau-a-pholis%3%afau/Tai/ECO.aspx>

Mae'r Datganiad o Fwriad yn nodi'r meini prawf cymhwysedd (rhaid i ymgeiswyr fod yn byw mewn eiddo sydd â thystysgrif EPC graddfa E, F neu G neu sgorio'n uchel ar y ffurflen gais os nad oes ganddynt EPC).

Pa fath o fesurau sy'n cael eu cynnig drwy'r cynllun?

Inswleiddio Waliau Ceudod, Inswleiddio Waliau Mewnol, Inswleiddio'r Gofod yn y To, Gwresogyddion Storio Trydan, Inswleiddio dan y Llawr, Inswleiddio Croglofftydd, Gwres Canolog am y Tro Cyntaf, Adnewyddu Bwyleri.

Camau Cysylltiedig

- Mae gofyn i ddeiliaid tai gysylltu ag asiant neu gwmni sy'n darparu'r cynllun (mae rhai cwmnïau yn mynd o gwmpas i godi ymwybyddiaeth am y gwasanaeth Eco maent yn ei gynnig).
- Mae'n rhaid wedyn i ddeiliaid gyrraedd meini prawf ar gyfer derbyn y gwasanaeth, fydd y cwmni yn golygu hyn ac efallai yn ymweld â'r eiddo ar gyfer asesu beth sydd yn bosib.
- Gofynnir i ddeiliaid tai wedyn lenwi ffurflen gais byr a gaiff ei chyflwyno i'r Cyngor i benderfynu ar gymhwysedd.
- Bydd yr asiant yn anfon adroddiad i gwmni ynni a fydd yn cynnig swm o arian maen nhw'n barnu sy'n briodol i wella sgôr effeithlonrwydd ynni'r eiddo.
- Pan fydd y Cyngor wedi cadarnhau cymhwysedd, bydd angen i'r asiant ei drosglwyddo i gwmni ynni, ynghyd â phrawf bod y cleient yn byw yn yr eiddo a phrawf o berchnogaeth.
- Os yw'r asiant wedi cael caniatâd i wneud gwaith, bydd angen dyfynbris arnynt gan y sawl sy'n gosod er mwyn gweld beth fydd y gost. Bydd angen i'r sawl sy'n gosod cynnal arolwg arall i lunio pris cywir ar gyfer cost y gwaith.
- Os yw cost y gwaith gwella'n is na chynnig y cwmni ynni, bydd y gwaith yn cael ei wneud am ddim. Os yw'n uwch, efallai y bydd angen i berchennog yr eiddo wneud cyfraniad ariannol yn unol â chyngor y cwmnïau. Nid yw'r perchennog dan unrhyw ymrwymiad o gwbl i symud ymlaen gyda'r gwaith ar y pwynt yma.
- Pan fydd yr asiant yn gwneud cynnig cadarn, byddant yn archebu'r deunyddiau ac yn / neu drefnu contractwr a threfnu dyddiad i wneud gwaith gwella.
- Nid yw'r Cyngor yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb neu atebolrwydd o ganlyniad i unrhyw ganlyniad negyddol, difrod neu golled sy'n codi o dderbyn grant ECO neu sy'n codi o waith neu ymdrechion sy'n gysylltiedig â



- pharatoi, gwneud cais neu gynnal arolwg cyn grant. Nid yw'r Cyngor yn cymeradwyo unrhyw gyflenwr ynni penodol, asiant grant, gosodwr neu gwmni sy'n gysylltiedig â gwneud cais am, neu osod, grantiau neu gynnyrch ECO.



ECO3 - Guidance for Applicants

The ECO3 scheme is operated by private companies, funding for the improvements will be awarded by the energy companies. Gwynedd Council and the Isle of Anglesey County Council has limited involvement and is not responsible for funding, appointing contractors or letting the work. The funding is only available to private owners and tenants who rent privately.

Gwynedd Council and the Isle of Anglesey County Council has published a Statement of Intent which allows this scheme to be carried out in Gwynedd:

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Council/Strategies-and-policies/Housing/ECO.aspx>

The Statement of Intent sets out the eligibility criteria (applicants must be living in fuel property with an EPC certificate of E, F or G or score highly on the application if they don't have an EPC).

What kind of measures are offered through the scheme?

Cavity Wall Insulation, Internal Wall Insulation, Room in Roof Insulation, Electric Storage Heaters, Underfloor Insulation, Loft Insulation, First Time Central heating, Boiler Replacements

Steps Involved

- Householders are required to contact an agent or company providing the scheme (some companies will go around to raise awareness of the Eco service they offer).
- Occupants then have to meet the criteria for receiving the service, the company or agent providing the service may visit the property to assess what is possible.
- Householders will then be asked to complete a short application form which will be submitted to the Council to determine eligibility.
- The agent will send a report to an energy company that will offer a sum of money that they deem appropriate to improve the property's energy efficiency rating.
- Once the Council has confirmed eligibility, the agent will need to transfer it to an energy company, along with proof of client's occupation of the property or proof of ownership.
- If the agent has been given permission to carry out work, they will need a quote from the installer to see what the cost will be. The installer will need to carry out another survey to come up with an accurate price for the cost of the work.
- If the cost of the improvement works is lower than the energy company's proposal, the work will be done free of charge. If higher, the property owner may need to make a financial contribution as advised by the company. The owner is under no obligation whatsoever to proceed with the work at this point.
- When the agent makes a firm offer, they order the materials and / or arrange a contractor and arrange a date for improvement works.



- The Council accepts no responsibility or liability as a result of any negative result, damage or loss arising from the receipt of an ECO grant or arising from work or efforts associated with preparing, applying or conducting a survey before a grant. The Council does not endorse any particular energy supplier, grant agent, installer or company involved in applying for, or installing, ECO grants or products.